

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Ionawr 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas ac R. J. Turner

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y

116. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU

Dechreuodd Caplan y Maer, Archddiacon Llanelwy, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

117. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, B. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

118. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19eg Rhagfyr 2018 - Rhifau Cofnod100-115

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. L. King ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Rhagfyr 2018 - Rhifau Cofnod 41-44

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

119. CYFLWYNIAD: GWASANAETHAU PARCIO CEIR SIR DDINBYCH

Ymhellach i gofnod rhif 109 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2018, croesawodd y Dirprwy Faer Mr Mike Jones a gwahoddodd ef i annerch yr aelodau ar gynigion yn ymwneud â dyfodol gwasanaethau parcio ledled y sir.

Mewn ymateb i nifer o aelodau a oedd wedi siarad ag ef cyn y cyfarfod, awgrymodd Mr Jones ei fod yn dechrau gyda'r problemau ym maes parcio Morfa Hall.

Cytunodd y Dirprwy Faer fod y mater hwn yn cael ei drafod yn gyntaf.

Dywedodd Mr Jones bod y maes parcio wedi ei drosglwyddo i feddiant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wyth mlynedd yn ôl, gyda dim ond y lle parcio i bobl anabl yn aros gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Ar 1af Rhagfyr 2018, trosglwyddodd WCVA y prif faes parcio y tu hwnt i'r manau parcio i bobl anabl i gwmni o'r enw Smart Parking ac ers hynny roedd nifer fawr o bobl wedi cael dirwyon ac er gwaethaf apelio ar yr hyn sy'n swnio fel materion rhesymol iawn, roedd y dirwyon yn cael eu cadarnhau.

Sicrhaodd Mr Jones yr aelodau ei fod wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda Smart Parking i gyflwyno'r achos dros fod yn drugarog o ystyried y system peiriant tocynnau newydd a oedd wedi ei chyflwyno, a'r dryswch a achoswyd gan hyn a chan Gyngor Sir Ddinbych, rhaid oedd cyfaddef, yn methu â gwneud y gwahaniaeth parcio yn ddigon clir, sefyllfa yr ychwanegwyd ati gan y fenter 'Am ddim ar ôl 3' a oedd yn rhedeg gydol mis Rhagfyr. Roedd mater lobbio'r cwmni nawr wedi ei gyflwyno i Mr Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Teimlai'r aelodau bod y dirwyon a gwrthod apeliadau pobl gan Smart Parking yn galed iawn o ystyried bod cymaint wedi talu'r ffi parcio cywir a heb aros yn rhy hir, a dim ond yn methu â nodi eu rhif cofrestru llawn neu ddim yn cofnodi eu rhif cofrestru gan nad oeddynt wedi arfer gyda'r peiriant tocynnau newydd.

Gofynnodd aelodau os oedd y Cyngor Sir yn ystyried ad-dalu pobl dan yr amgylchiadau hyn a oedd wedi apelio ac a oedd wedi bod yn aflwyddiannus?

Awgrymodd aelod hefyd, os oedd y Cyngor Sir yn gwybod bod Smart Parking yn berchennog y maes parcio ar 1af Rhagfyr, y dylai efallai fod wedi hysbysu'r Cyngor Tref er mwyn i gynghorwyr fedru rhannu'r wybodaeth gyda'u trigolion a bod mewn gwell sefyllfa i ddelio â'u cwynion.

Dywedodd Mr Jones bod gan y Cyngor Sir feddwl agored ynglŷn ag ystyried ad-dalu pobl yr oedd yn teimlo iddynt gael eu trin yn annheg a derbyniodd y dylent fod wedi dweud wrth y Cyngor Tref am y newid mewn meddiant a'r peiriant tocynnau newydd.

Dywedodd Mr Jones y dylid anfon cwynion ato ef a byddai ei adran yn edrych ar broses ar gyfer eu hystyried.

Cytunodd yr aelodau gyda hyn.

[Datganodd y Cynghorydd Ms V Roberts fuddiant rhagfarnus yn yr eitem gan ei bod wedi cael dirwy ac yn y broses o apelio yn ei herbyn ac ni chymerodd ran yn y bleidlais i gytuno ar y camau a awgrymwyd.]

Aeth Mr Jones ymlaen i ddweud:

- Byddai maes parcio Pentre'r Plant/Tanddaearol yn cael ei ail-enwi. O bosib, byddai'r Maes Parckio Canolog yn elwa o oleuadau newydd, arwyddion, teledu cylch cyfyng a pheiriannau tocynnau mewn pryd ar gyfer agor S2C. Byddai cynnig cyflwyno deniadol hefyd yn cael ei drefnu i hyrwyddo defnydd o'r maes parcio.
- Byddai 10 lle parcio yn cynnig defnydd am ddim am awr ar gyfer cwsmeriaid abl a dwy awr ar gyfer pobl gyda bathodyn anabledd ym meysydd parcio Morley Road a West Kimmel Street.

- Byddai byrddau tariff yn cael eu disodli gan fyrddau newydd wedi eu brandio gydag enw'r maes parcio (nad oedd yno ar hyn o bryd) gan ddechrau yn y Rhyl a Phrestatyn.
- Byddai holl docynnau talu ac arddangos yn cael eu newid i fersiynau clyfar gan alluogi casglu ystadegau defnydd dros y tair i bedair blynedd nesaf.
- Byddai'r maes parcio ar safle'r hen Swyddfa Bost yn agor ddechrau Mehefin. 34 lle gan gynnwys dau bwynt gwefrio trydanol.
- Byddai ap talu 'clyfar' hyblyg yn cael ei gynnig i gwsmeriaid hefyd.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, dywedodd Mr Jones:

- Ffynhonnell allanol fyddai'n darparu'r ap talu 'clyfar'
- Roedd deiliad swydd cynnal a chadw peiriannau tocynnau wedi bod i ffwrdd am 10 mis cyn gadael y awdurdod a byddai'r swydd yn cael ei llenwi yn y man i ddelio â phroblemau technegol gyda rhai peiriannau.
- Nid oedd manau parcio 'i deuluoedd' wedi eu cynnwys a safle'r hen Swyddfa Bost gan ei bod yn anodd gorfodi'r drefn, yn wahanol i'r manau parcio i bobl anabl, ond roedd werth ei ystyried fel mesur ymgynghorol.
- Nid oedd cyfnod o barcio am ddim yn y bore fel ym maes parcio Queen Street yn cael ei ystyried ar gyfer maes parcio safle'r hen Swyddfa Bost, ond byddai'n mynd â'r pwynt yn ôl.
- Byddai'r 'Maes Parcio Canolog' newydd yn cynnig arhosiad hir a bod defnydd gan docynnau tocyn blwyddyn yn bwynt da y byddai'n ei gyflwyno i'r cyngor.
- Byddai'n ystyried hyrwyddo'r cynllun tocyn yn well ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.
- Byddai arwyddion dehongli yn cael eu cyflwyno ym maes parcio'r sinema i gyfeirio pobl i'r traeth a manau eraill o ddiddordeb.
- Roedd galluogi i'r peiriannau tocynnau newydd roi newid yn rhwybeth arall y byddai'n ei gyflwyno i'r cyngor.

Cynigiodd Mr Jones roddi ychydig o becynnau sybsidi parcio am ddim i'r Cyngor Tref os oedd yr aelodau'n teimlo bod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei ystyried at y dyfodol?

Dyweddodd yr aelodau eu bod wedi ystyried hyn mewn blynyddoedd diweddar, ond gan fod meysydd parcio y Rhyl yn fwy na rhai Prestatyn a Dinbych, roedd y prisiau a gynigiwyd gan y Cyngor Sir yn llawer rhy uchel, yn enwedig nawr gan fod y Cyngor Tref wedi ymrwmo cyfraniad o £2 filiwn i SC2 a oedd yn golygu bod y cyllidebau eisoes yn gyfyngedig iawn.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ystyried ad-dalu pobl a oedd wedi talu a heb aros yn rhy hir ym maes parcio Morfa Hall ac awgrymu bod unigolion yn rhoi caniatâd i Smart Parking i rannu manylion eu hachosion gyda'r Cyngor Sir yn unol â Rheoliad newydd Cyffredinol Diogelu Data (GDPR).

120. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer yn y mis diwethaf.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

121. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – RHAGFYR 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
647	Cyngor Sir y Fflint	4,214.51	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Rhagfyr 2018
648	CThEM	2,649.55	Didyniadau Cyflog Rhagfyr 2018
649	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,885.53	Cyflogau Staff Ionawr 2019
650	BT	384.43	Taliadau rhentu
585	Shire Leasing	337.33	Prydlesu ffôn
651	BT	92.57	Taliadau galwadau/rhentu
654	HSBC	6.30	Taliadau Banc Rhagfyr
652	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Rhagfyr 2018
475	Cyngor Sir Ddinbych	707.00	TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 10 o 10
476	Siop Cymorth ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 10 o 12
	Cyfanswm taliadau	£17,633.88	

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

122. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Cyngor Sir Ddinbych	Llogi Neuadd y Dref ar gyfer Sioe Ffilm y Nadolig	645	11/12/18	125.00
Cyngor Sir Ddinbych	Cynnal a Chadw Gerddi Coffa – ad-daliad	646	13/12/18	6,041.18
Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliadau ar gyfer Canolfan Wellington	653	02/01/19	3,823.00

Band Arian y Rhyl	Cyfraniad ar gyfer Sul y Coffa	658	03/12/18	50.00
Cyfanswm Atodlen B				£10,039.18

123. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cadarnhau mai archwiliwr mewnol y Cyngor Tref fyddai JDH Business Services (a benodwyd gan y cyngor) a'r archwiliwr allanol fyddai BDO LLP (a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru).

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau ac ni wnaed datganiad o fuddiant.

124. ADRODDIAD INTERIM ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) ac awgrymodd ei fod yn cael ei ystyried gan Is-bwyllgor Asesu Risg y cyngor.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r adroddiad at yr Is-bwyllgor Asesu Risg.

125. GOHEBIAETH: TREFNYDD APÊL Y PABI, Y RHYL

Dywedodd Clerc y Dref bod y trefnydd, Mr Richard Kendrick, wedi gofyn bod y llythyr (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cael ei ddsbarthu i'r holl gynghorwyr er gwybodaeth ac ystyriaeth.

PENDERFYNWYD:

(i) Nodi cynllun Mr Kendrick i gyflwyno pabiau cyfansawdd fel opsiwn amgen i bapiau papur ar bolion lamp yn y dref y llynedd.

(ii) Na fyddai'r Cyngor Tref yn trefnu unrhyw brosiectau ychwanegol i nodi pen-blwydd 75 Glaniadau D-Day eleni, y tu hwnt i'r gwasanaethau Sul y Coffa.

126. CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN Y SWYDD

Cyflwynodd y Dirprwy Faer gofnod o'i flwyddyn fel maer 2017/18 i'r Cynghorydd A R James.

Diolchodd y Cynghorydd James i'r Dirprwy Faer ac i'r Swyddog Cymorth Gweinyddol Dinesig am gynhyrchu'r ffeil lawn.

127. GWYBODAETH: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y ddogfen uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau.

PENDERFYNWYD derbyn y ddogfen.

128. EITEM ER GWYBODAETH: GRŴP CYFEIRIO LLEOL Y RHYL

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau bod cyfarfod nesaf yr uchod yn cael ei gynnal am 5.30pm ar ddydd Mercher 31ain Ionawr yn Nhŷ Russell.

PENDERFYNWYD cydnabod y dyddiad.

129. EITEM ER GWYBODAETH: KFEST

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o ŵyl gerdd dri diwrnod, KFest, a oedd yn cael ei chynnal yn yr Arena Ddigwyddiadau ar ddydd Gwener 2il Awst.

PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth.

130. EITEM ER GWYBODAETH: CYNLLUN Y DREF

Adroddodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor Cynllunio Stratgol a Gweithredol nawr wedi cyrraedd y pwynt lle'r oedd angen dyheadau a syniadau prosiect gan yr aelodau ar gyfer dogfen y Cynllun Tref nesaf.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n dosbarthu ffurflen syml i bob cynghorydd yn eu gwahodd i gyfrannu eu dyheadau ar gyfer y Cyngor Tref, a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w hystyried cyn dod â'r cynllun yn ôl i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol a'i flaenoriaethu.

PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.

131. EITEM ER GWYBODAETH: CAIS I ANNERCH Y CYNGOR

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost gan Mr Brian Allen, Swyddog Diogelwch Cymunedol RNLI, yn gofyn am ganiatâd i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol mewn perthynas ag ymgyrch 'Parchu'r Dwr'.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais.

132. EITEM ER GWYBODAETH: GWAHODDIAD GAN GYMUNEDAU G2G

Soniodd y Cynghorydd K R Jones am wahoddiad agored i holl gynghorwyr ymweld â Chanolfan Argraffu 3D y prosiect rhwng 3.30pm a 6.30pm ar ddydd Iau 17eg Ionawr.

PENDERFYNWYD derbyn y gwahoddiad.

133. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

134. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: